Cofnodion Cyngor Cymuned 16 Gorffennaf 2020

Gan nad oedd y Cyngor Cymuned wedi medru cwrdd ers mis Chwefror oherwydd rheolau a chyfyngiadau pandemig Covid 19 galwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 16 Gorffennaf.
Cynhaliwyd y cyfarfod yn yr awyr agored am 8 o'r gloch ym maes parcio Capel Tabor.
Presennol : Lynn Davies (Cadeirydd), Huw Griffith (RFO). Islwyn Jones, Angharad Evans, Dylan Davies, Fred Jones, Margaret Lewis, a'r clerc.
Prif bwrpas y cyfarfod oedd cymeradwyo'r cyfrifon ariannol am y flwyddyn 2019-20.
Roedd yr archwilydd mewnol wedi archwilio'r cyfrifon a pharatoi ei adroddiad a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi arwyddo'r ffurflen ariannol cyn y cyfarfod.
Cytunwyd i gymeradwyo'r cyfrifon ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.
Awdurdodwyd talu Anthony Morgan £100 a chyflog y clerc ddiwedd y mis - £300.
Derbyniwyd rhan arall o'r praesept £1040



Ni phennwyd dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf gan y bydd yn ddibynnol ar yr amgylchiadau ar y pryd.

Wedi'r cyfarfod danfonwyd yr Adroddiad Ariannol a'r holl wybodaeth arall i'r Archwilwyr Allanol Grant Thornton